

Adolygiad o Ddatganiad Polisi Rhaglenni 2010

Cyhoeddwyd ar 19.12.2011

Rhagarweiniad

Dyma Adolygiad Awdurdod S4C o berfformiad gwasanaeth cyhoeddus S4C yn erbyn Datganiad Polisi Rhaglenni 2010. Paratowyd yr Adolygiad yn unol â gofynion paragraff 4 (1)(b) o Atodiad 12 Deddf Gyfathrebu 2003.

Roedd 2010 yn flwyddyn bwysig i wasanaethau S4C. O ddiwedd mis Mawrth ymlaen roedd y Sianel yn darlledu yn gwbl ddigidol ac felly yn cynnal gwasanaeth cyflawn Gymraeg o 07.00 y bore tan yr hwyr. Yna ym mis Ebrill lansiodd y sianel newydd mewn manylder uwch, S4C Clirlun.

Cafodd Strategaeth Cynnwys 2009 ei llunio ar gyfer pontio dechrau a diwedd y broses o drosglwyddo i ddigidol. Roedd ein gwasanaeth yn 2010 felly yn dilyn blaenoriaethau'r strategaeth honno gan ymrwymo i gynnig darpariaeth amrywiol o safon uchel sy'n rhoi'r gwerth gorau i'r gynulleidfa. Mewn partneriaeth greadigol gyda'n cynhyrchwyr roedd yna awydd i weithio mewn ffyrdd dyfeisgar a gwreiddiol i ateb gofynion y defnyddwyr.

Gwelwyd parhad o'r Bartneriaeth Strategol rhwng S4C a'r BBC ac fe adnewyddwyd y cytundeb ym mis Rhagfyr 2010 ar gyfer y cyfnod tan fis Mawrth 2013.

Yng nghwarter olaf y flwyddyn fe osodwyd her ychwanegol sef gorfod ymateb i leihad arfaethedig yn y gyllideb cynnwys yn y dyfodol. Mewn cyfnod o galedi economaidd roedd yna bwysau ychwanegol ar yr angen i sicrhau y gwerth gorau am arian. Rydym yn gwerthfawrogi gallu a pharodrwydd ein cynhyrchwyr i gydweithio gyda ni wrth ymateb i'r sialensiau yma.

Gwerthfawrogiad y Gwylwyr

Cynhaliwyd gwaith ymchwil ansoddol a meintiol trwy'r flwyddyn er mwyn asesu barn gwylwyr ac ystyried y canlyniadau a goblygiadau wrth gynllunio'r gwasanaeth. Roedd hwn yn cynnwys gwaith manwl iawn o fonitro perfformiad yr amserlen trwy gydol yr adeg o drosglwyddo i ddigidol. Rhaid nodi hefyd i Banel BARB newid o ran cyfansoddiad ar ddechrau 2010.

Mae mwy o bobl yn 2010 wedi gwyllo arlwy S4C mewn wythnos arferol nac yn 2009 - yn ystod 2010 y cyrhaeddiad wythnosol i oriau Cymraeg oedd 467,000 - 18,000 yn uwch na'r 449,000 a gafwyd yn 2009. Wrth edrych ar ffigurau tu allan i Gymru, bu cynnydd o 102,000 yr wythnos i 149,000 yr wythnos. Felly mae'r gwyllo ar draws y D.U. yn 616,000 yr wythnos - cynnydd o 65,000 ar ffigurau 2009.

Yn ystod 2010, fe gafodd rhaglenni Cymraeg S4C sgôr gwerthfawrogiad o 80 o'i gymharu â sianeli eraill* gafodd sgôr o 78. Yr un yw'r sgôr ymysg siaradwyr Cymraeg, tra fod y sgoriau yn 79 i S4C a 77 i sianeli eraill* ymysg y di-Gymraeg. Mae hyn yn dangos mwynhad pendant o'n rhaglenni ac yn dystiolaeth ein bod yn cael ein gwerthfawrogi'n fawr iawn i gymharu â sianeli eraill.

**Sianeli eraill = BBC1, BBC2 ac ITV1
Ffynhonnell: Kantar Media*

Drama

Unwaith eto roedd **Pobol y Cwm** (BBC Cymru) yn gonglfaen o fewn yr amserlen gyda'r prif ddarllediad am 20.00 yn ystod yr wythnos gyda chyfleoedd eraill i wyllo gydag is-deitlau agored am 18.00 a gyda'r omnibws ar ddydd Sul. Fe berfformiodd y gyfres yn dda trwy'r flwyddyn gan gynyddu cynulleidfa rhaglen 20.00 o 42,000 yn 2009 i 51,000 yn 2010.

Llwyddodd ymgyrch hyrwyddo **Rownd a Rownd** (Rondo Media) gan sicrhau cefnogaeth bellach i'r gyfres yn 2010. Cafwyd cyrhaeddiad o 228,000 i'r gyfres yn ystod y flwyddyn. Yn ôl y disgwyl yn y Gogledd oedd y rhan fwyaf o'r gynulleidfa. Roedd y gyfres hefyd yn denu nifer o sesiynau gwyllo ar-lein ar wasanaeth Clic.

Ffilm fawr y Gwanwyn oedd **Cwew** (Ffilmiau Fondue) a gafodd ei hysgrifennu a'i chyfarwyddo gan Delyth Jones. Roedd y cynhyrchiad yn rhoi llais i awdur unigol yn unol â Strategaeth S4C. Cafodd y ffilm werthfawrogiad eang gan ennill nifer o wobrau a chanmoliaeth ryngwladol. Heb os, un o lwyddiannau mawr y Sianel oedd y gyfres **Pen Talar** (Fiction Factory) gan Ed Thomas a Sion Eirian. Cafodd y gyfres ganmoliaeth fawr yn y wasg, ar lafar, ar Wifren Gwylwyr, ar y radio ac yn y Cynulliad ac fe ddenodd bron 24,000 o sesiynau gwyllo ar Clic.

Ar ôl hir aros fe ddaeth y drydedd gyfres o **Teulu** (Boomerang) i'r sgrin. Yn ôl y disgwyl, ar ôl diwedd glo dramatig y gyfres ddiwethaf cafwyd ffigurau uchel i'r bennod gyntaf a pharhau yn uchel wnaeth y ffigurau trwy rediad y gyfres.

Digwyddiadau a Theledu Achlysur

Mae'r Strategaeth Cynnwys yn nodi mai S4C yw cartref digwyddiadau o ddiddordeb Cymreig ac yn y Datganiad Polisi Rhaglenni nodwyd y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei hymestyn ymhellach yn 2010. Heb os nac oni bai cafodd y datganiad hwnnw ei gadarnhau a'i gryfhau yn ystod Haf 2010. Gwelwyd cynnydd o 44% yn y nifer o bobl a wylodd ein digwyddiadau yn 2010. Denodd y darllediadau hyn gynulleidfa o dros 1.4 miliwn. Hefyd bu dros 125,000 o sesiynau gwyllo ar-lein i'n rhaglenni o'r digwyddiadau. Roedd y digwyddiadau a gafodd sylw yn ymestyn o'r cenedlaethol i'r cymunedol ac yn gymysgedd o ddarllediadau byw a rhaglenni wedi eu recordio. Mae cael presenoldeb yn y gwyliau yn cynyddu proffil y sianel gyda'i gwylwyr ffyddlon yn ogystal â bod yn gyfle i gyflwyno'r sianel i wylwyr newydd. Mae cynulleidfa S4C dal yn credu'n gryf mai dangos digwyddiadau o Gymru yw un o brif gryfderau'r sianel (Gwasanaeth Tracio Delwedd 2010).

Un o uchelfannau'r amserlen yn 2010 oedd cyfres **Y Porthmon** (Telesgop). Cyfres o raglenni byw yn olrhain taith y Porthmon Dafydd Isaac o Geredigion yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Cafwyd wythnos o raglenni adloniannol ac addysgiadol wrth i Ifan Jones Evans droedio hen lwybr Dafydd Isaac o Fachynlleth i farchnad Aberhonddu, gan alw ar gymorth nifer o bersonoliaethau ar y ffordd. Roedd yn ffordd effeithiol o gyflwyno hanes mewn ffordd adloniannol ac fe ddaeth 167,000 o bobol at y gyfres, a fe gafwyd sgôr gwerthfawrogiad da o 84 i'r gyfres.

Chwaraeon

Heb os cystadleuaeth golff **Y Cwpan Ryder** (Slam/Indus) yw un o'r digwyddiadau chwaraeon mwyaf i gael ei gynnal yng Nghymru erioed. Roedd yn hynod o bwysig felly fod yna ddarpariaeth yn y Gymraeg ar S4C. Cafwyd canmoliaeth i safon gynhyrchu'r ddarpariaeth ar S4C wrth i ni gyflwyno rhaglenni uchafbwyntiau nosweithiol i adlewyrchu holl gyffro'r achlysur. Roedd y profiad yn profi pwysigrwydd gallu S4C i adlewyrchu prif ddigwyddiadau chwaraeon Cymru.

Un o lwyddiannau mawr y sianel yn 2010 oedd ein rhaglenni byw o Gwpan FA Lloegr (Rondo Media). Sicrhawyd ffigyrau cyrhaeddiad uchel dros ben o 459,000 a 341,000 trwy'r Deyrnas Unedig yn ystod ein darllediadau o gemau Bristol City a Chelsea yn erbyn Caerdydd. Roedd y rhaglenni yma yn denu gwylwyr newydd i'r sianel. Mae'n rhaid nodi pwysigrwydd y cyfleoedd i sicrhau'r math yma o hawliau i S4C.

Roedd ein darpariaeth rygbi hefyd yn mynd o nerth i nerth gan ddenu cyrhaeddiad unigryw i'r sianel. Ein rhaglenni rygbi uchaf oedd dwy gêm y Gweilch - yn erbyn Leinster ar y 29.05.2010, ac yn erbyn Caeredin ar y 04.12.2010, y ddwy raglen yn denu cyrhaeddiad ar draws y D.U. o 347,000 yr un. Llwyddwyd i ymestyn ein hawliau i Gynghrair Magners a Chwpan Heineken.

Cyflwynwyd gwasanaeth bêl-droed newydd ar brynhawn Sadwrn gyda **Sgorio** (Rondo Media) ar ei newydd wedd. Mae'r rhaglen bellach yn cynnig gêm fyw o Uwch Gynghrair Cymru gyda gwasanaeth canlyniadau a newyddion pêl-droed llawn. Profodd yn wasanaeth poblogaidd gan ymestyn cyrhaeddiad prynhawn Sadwrn.

Darpariaeth newydd arall i S4C oedd ein darllediadau criced wrth i ni gyflwyno 5 o gemau T20 Morgannwg (Tinopolis) yn fyw o Stadiwm Swalec. Creu rhaglenni adloniannol oedd yn adlewyrchu holl gyffro'r chwarae a'r achlysur oedd y bwriad a dyna a gafwyd. Unwaith eto, denwyd cynulleidfa eang a newydd i'r sianel gyda'r rhaglen uchaf (Morgannwg yn erbyn Hampshire, 08.06.2010) yn cael cyrhaeddiad (ar draws y D.U.) o 172,000.

Cafwyd amrywiaeth o chwaraeon eraill ar y sianel yn 2010 gan gynnwys chwaraeon eithafol, sialensiau eithafol, athletau, ralio a physgota.

Newyddion a Materion Cyfoes

Roedd 2010 yn flwyddyn Etholiad Cyffredinol hanesyddol a chafwyd ystod eang o raglenni ar S4C. Cafwyd gwasanaeth cyflawn a chynhwysfawr oedd yn rhoi gwybodaeth a chyd-destun i'r gynulleidfa gan gyfrannu at eu dealltwriaeth. Wrth i ni dderbyn ein rhaglenni oddi wrth BBC Cymru/Wales ac ITV roedd ein darpariaeth yn adlewyrchu ein plwraliaeth. Yn ogystal â sylw nosweithiol ar ein gwasanaeth Newyddion, darlledwyd 14 o raglenni arbennig ar ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol gan gynnwys un rhaglen yn ystod yr wythnos wedi'r canlyniad yn dadansoddi'r ymdrechion i ffurfio llywodraeth. Trwy gyfresi **Etholiad 2010** (ITV Cymru), **Pawb a'i Farn** (BBC Cymru/Wales) ac **CF99** (BBC Cymru/Wales) aeth ein darpariaeth i galon ein cymunedau gan drafod, dadansoddi a dehongli holl agweddau'r ymgyrchoedd.

Roedd y rhaglen ganlyniadau ar noson yr Etholiad dan arweiniad Dewi Llwyd yn drylwyr ac awdurdodol. Cafodd Cyllideb gyntaf y llywodraeth newydd sylw helaeth ar S4C gan gynnwys rhaglen fyw gan BBC Cymru/Wales yn ystod araith y Canghellor. Roedd yna le amlwg i'n holl ddarpariaeth Newyddion a Materion Cyfoes yn yr oriau brig ac all frig a llwyddwyd i gynnig mwy o lawer o wasanaeth na'r hyn a noder yn nhargedau Ofcom. Yng nghanol bwrlwm yr Etholiad Cyffredinol penderfynwyd ymateb ar frys i fwrlwm o fath gwahanol, sef effeithiau llwch y llosgfynydd yng Ngwlad yr Ia ar deithiau awyr. A'r argyfwng yn ei anterth, darlledwyd rhaglen hanner awr arbennig yn fyw dan deitl **Lluch Folcanig – Yr Argyfwng** (Tinopolis).

Plant

Parhau gwnaeth llwyddiant ein gwasanaeth meithrin **Cyw** yn ystod 2010. Ar 06.09.2010 cyhoeddwyd tu allan i'r Senedd ym Mae Caerdydd fod arlwy **Cyw** (Boomerang) yn ehangu i'r penwythnosau wrth i ni ddarlledu rhaglenni meithrin ar foreau Sadwrn a Sul am y tro cyntaf. Roedd hyn yn weithredol o 23.10.2010. Bu Cyw a'i ffrindiau hefyd yn cenhadu yn Llundain a chael croeso gan y Maer Boris Johnson ac eraill.

Gwelwyd datblygiad pellach o frand Cyw yn 2010 trwy gyflwyno **Clwb Cyw** (Boomerang) oedd yn teithio trwy Gymru gyfan. Datblygwyd undod gwledol ar draws yr holl wasanaeth gan gynnwys gwefan ar ei newydd wedd.

Ar ddiwedd mis Ebrill lansiyd gwasanaeth newydd i blant 7 i 13 oed sef **Stwnsh** (Boomerang). Bu'r gwasanaeth yn darlledu am ddwy awr bob dydd o'r wythnos rhwng 16.00 a 18.00. Un o uchafbwyntiau'r gwasanaeth newydd oedd **Stwnsh Sadwrn** (Boomerang) oedd yn darlledu ar foreau Sadwrn rhwng 09.00 ac 11.00. Rhan annatod o'r ddarpariaeth oedd y wefan sy'n cynnig cyfleoedd i'r gwylwyr chwarae gemau, rhyngweithio, lawr lwytho gwybodaeth yn ogystal â gwyllo'r gwasanaeth ar-lein.

Roedd gan ein darpariaeth blant bresenoldeb amlwg yn y digwyddiadau ar hyd a lled Cymru. Bu cyflwynwyr **Cyw** a **Stwnsh** yn Eisteddfodau'r Urdd, Llangollen a'r Genedlaethol ynghyd â Sioe Llanelwedd a Môn. Bu criw **Stwnsh** hefyd yn rhai o'r digwyddiadau mwy lleol a chafwyd ymateb positif gan blant a rhieni i'r ddarpariaeth.

Ar ôl 16 mlynedd a dros 1500 o raglenni, daeth y gyfres gylchgrawn i blant a phobol ifanc **Uned 5** (Antena) i ben. Roedd hyn yn sgil penderfyniad strategol i dargedu gwylwyr ifanc 13+ drwy gynnig amryw o raglenni o wahanol genre. Bu cyfraniad y gyfres a'r timoedd cynhyrchu dros y blynyddoedd yn eithriadol o bwysig yn hanes y Sianel.

Gwobrwywyd y cytundebau am raglenni ar gyfer pobl ifanc (dros 13 oed) dan dendr i Antena a Rondo Media. Lansiyd y raglenni newydd fel rhan o arlwy 2011.

Ffeithiol

Bu'r gyfres ffeithiol **O'r Galon** yn gryf ac amrywiol yn 2010. Denodd sawl un o'r rhaglenni ganmoliaeth a chynulleidfa eang. Roedd rhaglenni **Trên i Ravensbruck** (Rondo Media) a **Frank Letch** (ITV Cymru) yn uchafbwyntiau yn y gyfres.

Uchafbwynt yn amserlen Dydd Gŵyl Dewi oedd y deyrnged arbennig i'r cyn-archdderwydd Dic Jones - **Dic Jones Yn Ei Eiriau Ei Hun** (POP1).

Roedd ein hunaniaeth a'n cyfoeth llenyddol yn cael eu hadlewyrchu mewn cyfres newydd **Gwlad Beirdd** (Apollo) ac roedd dawn adrodd stori'r Cymry i'w weld yng nghyfresi **Pen Llŷn Harri Parri** a **Straeon Harri Parri** (Cwmni Da). Roedd lle i hanes yn yr amserlen hefyd yn y gyfres **Byw yn ôl y Llyfr** (Cwmni Da).

Tir a daeareg Cymru oedd canolbwynt cyfres newydd Iolo William - **Tir Cymru** (Aden). Fe ddenwyd 170,000 o bobl wahanol i wyllo'r darllediadau, ac fe gafwyd ymateb gwyh i'r gyfres hon gyda 66% yn nodi ei bod yn "raglen y mae'n rhaid i mi ei gwyllo", a 88% yn teimlo ei bod yn gyfres ddifyr. Fe ddaeth nifer fawr o alwadau i'r Wifren yn canmol y gyfres.

Roedd cyfres o raglenni yn y gyfres **Y Daith** (Boomerang/Unigryw/Cwmni Da/Antena/POP1) yn cynnwys amrywiaeth cyfoethog o wynebau a lleoliadau ym maes ffydd a chrefydd.

Roedd ein rhaglenni gwledig yn parhau yn rhan allweddol o'r amserlen gyda chyfresi **Cefn Gwlad** (ITV Cymru) a **Ffermio** (Telegop) yn amlwg ac yn cyflwyno gwasanaeth pwysig a phoblogaidd.

A bu rhaglenni dyddiol **Wedi 3** ac **Wedi 7** (Tinopolis) yn parhau i ddod a straeon amrywiol o bob rhan o Gymru i'r sgrin.

Unwaith eto eleni cafodd nifer o'n rhaglenni ym maes ffeithiol eu henwebu a'u gwobrwyo. Roedd hyn yn deyrnged bellach i waith trylwyr a gweledigaeth Lowri Gwilym, Golygydd Ffeithiol S4C, a gollwyd yn ddisymwth o sydyn yn ystod y flwyddyn.

Diwylliant a Cherddoriaeth

Gyda'r bwriad o adlewyrchu a chryfhau ein hunaniaeth ddiwylliannol fe gychwynnodd ein gwasanaeth diwylliant newydd ym mis Chwefror. Wrth gyflwyno darpariaeth newydd y nod oedd sicrhau fod sylw dyledus yn cael ei roi i ddiwylliant o bob math trwy gydol y flwyddyn gan alluogi rhagor o drafod a sylw i'r maes sy'n un o swyddogaethau allweddol darlledwr cyhoeddus. Roedd brand **Pethe** yn amlwg trwy'r flwyddyn gyda'r brif gyfres a'r cyfresi atodol **Dweud Pethe a Pethe Hwyrach** (Cwmni Da).

Roedd cerddoriaeth yn rhan allweddol o'r amserlen yn 2010, gyda chyfresi oedd unwaith eto yn arddangos y cantorion a'r corau sy'n serennu yng Nghymru a thu hwnt. Yn ogystal cafwyd corau rhanbarthol a chymunedol yn cystadlu yn **Codi Canu** (Boomerang). Un o'r cyfresi mwyaf poblogaidd oedd **Only Men Aloud** (Boomerang) gyda rhaglen uchaf y gyfres yn denu cyrhaeddiad o 142,000 ar draws y D.U..

Er gwaethaf broblemau recordio a achoswyd gan y tywydd, roedd yna le amlwg yn amserlen y Nadolig i **Nadolig Bryn Terfel** (Boomerang + CCC). Bu'r gyfres **Dechrau Canu Dechrau Canmol** (Avanti) yn parhau i gyflwyno canu cynulleidfaoel a pherfformiadau o safon uchel. Roedd sylw i gerddoriaeth gyfoes a'r sin roc Cymraeg trwy gyfrwng ein darpariaeth o'r gwyliau cerddorol, rhifynnau arbennig o **Bandit** a chyfresi **Nodyn a Gofod** (Boomerang).

Adloniant

Prif nod ein harlwy o adloniant ac adloniant ffeithiol yn 2010 oedd darparu ystod eang o raglenni a chyfresi oedd yn gymysgedd o'r hen a'r newydd ac yn cynnwys nifer o'n prif bersonoliaethau. Roedd yna ogwydd cymunedol hefyd ar y ddarpariaeth gyda chyfresi **Cyngerdd, Dathlu, Cyfnewid** (Boomerang) a **Noson Lawen** (Cwmni Da).

Roedd **Tudur Owen** (Boomerang) a **Jonathan** (Avanti) yn amlwg yn yr amserlen gyda'u rhialtwech poblogaidd. Bu Dudley yn dilyn a choginio cynnyrch Cymreig ar **O'r Gât i'r Plât** (Rondo Media), rhaglen a gafodd ymateb da am fod yn "ddymunol a difyr", gyda chydbwysedd da rhwng coginio a chynnyrch, a sgôr gwerthfawrogiad da o 81.

Yn **Noson Gari Williams** (Cwmni Da) cafwyd cyfle i weld a thalu teyrnged i un o brif ddigrifwyr Cymru.

Cafwyd cyfresi newydd o'r rhaglenni adloniant ffeithiol poblogaidd **Bro** (Telesgop), **Cofio** (ITV Cymru) a **Byw yn yr Ardd** (Cwmni Da).

Profodd ail gyfres **Fferm Ffactor** (Cwmni Da) yn boblogaidd gan lwyddo i gael ffigwr cyrhaeddiad o 122,000 ar draws y gyfres, a phob rhaglen yn cyrraedd yr ugain uchaf wythnosol. Fe gafwyd mwy na 3,000 o sesiynau gwyllo ar Clic i'r rhaglen.

Cyfres newydd oedd yn ymwneud â thrio cael y gwerth gorau am eich arian wrth feddwl am bob agwedd o'ch cartref fel perchennog neu fel tenant oedd **Sioe'r Tŷ** (Boomerang). Roedd y gyfres yn ceisio ymateb i'r hinsawdd economaidd yn ei chynnwys golygyddol, ond efallai yn fwy addas ar gyfer slot darlledu yn ystod y dydd yn hytrach na'r oriau brig. Mae'n bwysig bod yn ofalus wrth amserlenni'r fath gyfres o fewn yr oriau brig.

Ailddarlledu

Lleihawyd nifer yr ailddarllediadau o fewn 7 diwrnod i'r dangosiad cyntaf. Gwnaethpwyd hyn drwy gynnig un darllediad wedi ei arwyddo o fewn 7 diwrnod, ac unrhyw ddangosiadau pellach yn cael eu cynnig tu allan i'r ffenestr hon. Mae nifer yr ailddarllediadau o fewn yr oriau brig (18.30 i 21.30) hefyd wedi ei lleihau yn unol â'r targed, ac fel rhan o'r ymateb i sylwadau'r gwylwyr.

Gwasanaethau Y Tywydd

Ym mis Tachwedd, daeth cytundeb tair blynedd o wasanaeth tywydd gan **ITV Cymru** i S4C i ben. Mae bron 29,000 o ymweliadau wedi bod i'r wefan Tywydd yn 2010, sydd yn 2,400 ar gyfartaledd bob mis. Mae'n ymddangos yn 30 uchaf gwefannau S4C yn fisol. Mae'r Sianel yn ddiolchgar iddynt am wasanaeth proffesiynol a dibynadwy.

Enillwyd y cytundeb newydd gan gwmni **Tinopolis**. Mae Tinopolis yn defnyddio cwmni newydd Weather Central i ddarparu'r wybodaeth tywydd ac yn datblygu graffeg gyffrous newydd i wella diwyg y bwletinau tywydd. Mae'n fwriad ehangu straeon tywydd i raglenni **Wedi 3** ac **Wedi 7**. Cafodd y wefan hefyd ei diwygio i gynnwys rhagolygon lleol yn seiliedig ar god post.

S4C 2

O ganlyniad i'r toriad yng nghyllid S4C a datblygiadau gwasanaethau ar-lein, penderfynwyd dod a gwasanaeth S4C 2 i ben ar y 06.12.2010. Y bwriad oedd cynnig rhai o'r gwasanaethau oedd yn ymddangos ar S4C 2 ar www.s4c.co.uk. Ar 24.04.2010 dechreuodd S4C ddarlledu o'r Cynulliad fel rhan o wasanaeth S4C gyda'r hwyr.

Gwefan a Chlic

Roedd y cynnydd ym mhoblogrwydd ein gwasanaeth gwyllo eto **Clic** ar wefan S4C a'r traffig i'n gwasanaethau ar-lein yn sylweddol uwch yn 2010. Fe gafwyd dros 1.6 miliwn o sesiynau gwyllo i'n rhaglenni yn ystod 2010 - cynnydd o 44% ar ffigurau 2009.

Dysgwyr

Darparwyd gwasanaeth ar-lein cynhwysfawr i Ddysgwyr Cymraeg ar wefan www.s4c.co.uk/dysgwyr.

Mae gwefan dysgwyr S4C yn rhoi gwybodaeth gefndir am rai o raglenni'r Sianel ac yn darparu ymarferion iaith drwy gyfrwng posau a chlipiau o raglenni. Nod y wefan ydi cynorthwyo dysgwyr i ddeall a mwynhau rhaglenni Cymraeg S4C yn well.

Mae'r wefan wedi ei chynllunio yn benodol ar gyfer 4 lefel, a sylw arbennig yn cael ei roi i 3 rhaglen wahanol yn wythnosol, felly dros 150 o becynnau am y flwyddyn. Ymysg y rhaglenni a roddwyd sylw iddyn nhw ar y gwasanaeth oedd **Teulu** (Boomerang), **Pen Talar** (Fiction Factory), **Y Fenai** (Cwmni Da) a **Byw yn yr Ardd** (Cwmni Da). Bu sawl cyfarfod hefyd mewn niferoedd o ganolfannau dros Gymru gyfan i hyrwyddo'r gwasanaeth.

Cafwyd dros 55,000 o ymweliadau i'r wefan Dysgwyr yn 2010, sydd yn 4,600 ar gyfartaledd bob mis. Mae'r wefan wedi ymddangos ym mhymtheg gwefan uchaf S4C yn fisol. Fe lawrlwythwyd 1,773 podlediad ar y wefan Dysgwyr yn ogystal.

Mae'n gwasanaeth tracio delwedd (SPA 2010) yn dangos fod 81% o bobol yn credu fod S4C yn darparu gwasanaethau cefnogol da ar gyfer Dysgwyr y Gymraeg.

Comisiynu Cod Ymarfer a Thelerau Masnach

Mae S4C yn gweithredu proses o gomisiynu yn unol â'r Ddeddf Gyfathrebiadau 2003, y Cod Ymarfer a Thelerau Masnach. Adolygwyd y Cod Ymarfer (2004) a chyhoeddwyd Cod o'r newydd ym mis Ebrill 2010. Fel rhan o'r broses hon trafodwyd yr egwyddorion gyda TAC a chymeradwywyd y Cod Ymarfer gan Ofcom.

Comisiynwyd 89% o'r rhaglenni gan y sector annibynnol (yn unol â diffiniad Ofcom). Mae hyn yn ganlyniad sydd yn uwch na'r targed o 25% a bennir yn y Ddeddf Gyfathrebiadau. Comisiynwyd 99% o raglenni gwreiddiol (yn unol â diffiniad Ofcom) i'w darlledu ar draws yr holl oriau. Mae hyn yn ganlyniad sydd yn uwch na'r targed o 80% a gytunwyd gydag Ofcom.

Amrywiaeth

Yn ystod y flwyddyn roedd S4C yn flaengar er mwyn sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei integreiddio, hyrwyddo a'i hybu ym mhob agwedd o'n gwaith. Mae'r gwaith wedi cynnwys cyhoeddi Ymrwymiad S4C i Amrywiaeth, Cynllun a threfn gweithredu cynhwysfawr a sicrhau ymwybyddiaeth am waith S4C yn y maes.

Mae amrywiaeth yn cael ei drafod fel rhan o'r broses o gomisiynu a darparwyd gweithdai yn cyflwyno ac esbonio Ymrwymiad S4C i Amrywiaeth i'r sector. Mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol, a bydd S4C yn gweithio ar hyn er mwyn sicrhau ffurf i fesur yr effaith.

Mae'r gwaith er mwyn sicrhau hygrychedd yn ein cyfathrebiadau (ar sgrin, ar-lein ac mewn print) yn parhau. Mae ymrwymiad S4C i wasanaethau mynediad yn parhau.

Gwasanaethau Mynediad Isdeitlo

Darparwyd gwasanaeth isdeitlo Cymraeg a Saesneg ar gyfer nifer helaeth o raglenni yn ystod 2010 ar bron i bob llwyfan darlledu ac ar y gwasanaeth ar alw Clic ar wefan S4C. Bwriad y gwasanaeth yw ehangu apêl y rhaglenni ar gyfer pobl ddi-Gymraeg, y byddar a'r trwm eu clyw. Yn ystod y flwyddyn fe isdeitlwyd 85.93% o'r oriau ar y gwasanaeth S4C Digidol (targed Ofcom yw 80%). Roedd rhai yn isdeitlau agored (BIST - neu Burnt-In) - fel arfer ar ail ddarllediadau poblogaidd rhaglenni fel **Teulu** (Boomerang), **Pen Talar** (Fiction Factory) ac omnibws **Pobol y Cwm** (BBC Cymru/Wales).

Sain ddisgrifio ac Arwyddo

Roedd gwasanaeth sain ddisgrifio ar gael ar gyfer defnyddwyr dall ac â golwg rhannol Cymraeg eu hiaith ar S4C Digidol. Mae hyn yn sylwebaeth lafar i lenwi'r cyfnodau pan nad oes unrhyw ddeialog mewn rhaglenni, ac yn cynnwys disgrifiadau ychwanegol sy'n cyfoethogi mwynhad y defnyddwyr. Roedd sain ddisgrifiad ar 10.52% o raglenni S4C Digidol yn erbyn targed Ofcom o 10% am y flwyddyn.

Dangosir rhai rhaglenni gydag arwyddwr BSL (British Sign Language) fel arfer ar y penwythnos ar gyfer gwylwyr byddar. Cyrhaeddwyd ffigwr o 5.14% yn erbyn targed Ofcom o 5% o raglenni gyda gwasanaeth arwyddo arno.

Gwasanaeth Cymorth

Ar wefan S4C cafwyd gwasanaeth cymorth ar-lein sy'n cynnwys deunydd cynorthwyol cyfredol am sawl pwnc a fyddai'n gysylltiedig â chynnwys rhaglenni. Yn ychwanegol ar adegau, trefnwyd llinellau cymorth ar y ffôn a gwasanaethau gwybodaeth wedi eu recordio fel help perthnasol arall. Rhoddwyd sylw i bynciau amrywiol yn cynnwys problemau iechyd, colled, beichiogrwydd a byw gydag anabledd.

Gwybodaeth i Wylwyr

Darparwyd gwybodaeth am ein gwasanaethau a derbyn sylwadau neu gwynion gan ein gwylwyr ar ein gwefan gwylwyr a thrwy'r Wifren Gwylwyr. Cafwyd defnydd trwm o'r Wifren yn ystod y cyfnod o newid i ddigidol wrth i'r Wifren gynnig cymorth i wylwyr ar y broses o newid.

Sgrîn

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd 3 rhifyn o Sgrîn, cylchgrawn gwylwyr S4C (Ebrill, Medi a rhifyn arbennig y Nadolig). Roedd y cylchgrawn ar gael i ddarllen fel copi caled neu ar-lein, gyda fersiynau sain ar gael ar CD neu fel MP3 ar-lein.

Llythrennedd yn y Cyfryngau

Bu S4C yn aelod o Gonsortiw m y D.U. ar Gyfranogaeth Ddigidol gan gyfrannu at lunio'r Cynllun Cyfranogaeth Ddigidol. Rydym hefyd yn aelod o Rwydwaith Llythrennedd yn y Cyfryngau Cymru ac yn ystod 2010 buom yn parhau â'r gwaith o wella cymhwysiad digidol a llythrennedd yn y cyfryngau digidol ynghyd â chynyddu sgiliau bywyd digidol.

Fel rhan o wasanaethau mynediad S4C, mae fersiwn sain o gylchgrawn gwylwyr S4C ar gael ar gyfer pobl ddall neu bobl sydd ag anawsterau gweld. Mae ein gwefan yn gwbl ddwyieithog.

Tendrau

Yn unol â Pholisi Tendro S4C cynhaliwyd prosesau tendr ar gyfer y gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Cystadlaethau Cwpan Heineken (Sunset & Vine/SMS) a Chwpan LV (Slam/Indus).
- Gwasanaethau Tywydd (Tinopolis).
- Gŵyl Cerdd Dant Cymru 2010–2012 (Rondo/Telesgop).
- Pencampwriaeth Ieuencid y Byd yr IRB (Slam/Indus).
- Taith Tîm Rygbi Cymru i Seland Newydd (Indus).
- Criced ar S4C 2010-2011 (Tinopolis).
- Cyfresi ar gyfer y gwasanaeth i blant hŷn a phobl ifanc (13+) (Rondo ac Antena).
- Cynhyrchu dolenni cyflwyno a chynnwys ar gyfer Cyw (Boomerang).
- Tendr Gwasanaeth Cymorth S4C (Pawb).

Hyfforddiant a Thalent

Mae fframwaith talent S4C yn gweithredu er mwyn adnabod ac annog datblygiad talentau staff. Darparwyd hyfforddiant i staff S4C yn unol â blaenoriaethau strategol y busnes.

Mae Fframwaith Hyfforddi Skillset Cymru a sefydlwyd ar y cyd gyda'r sector yn 2008 yn casglu a chyd-lynu'r wybodaeth am ofynion sgiliau'r diwydiant. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad yn cael ei arwain gan y gwir anghenion ac yn effeithiol wrth ymateb i ofynion busnes y sector. Sicrhawyd darpariaeth addas i godi lefel sgiliau'r sector drwy fuddsoddi'n uniongyrchol mewn hyfforddiant drwy Cyfle, Initialize Films, DV Talent a Kirkbright, yn ogystal â sicrhau cronfa er mwyn cefnogi sgiliau llaw-ryddion.

Ysgoloriaethau

Yn ystod y flwyddyn dyfarnwyd ysgoloriaethau S4C i'r canlynol:

- Ysgoloriaeth yr NFTS i Jonathan Hill a Christian Richardson.
- Ysgoloriaethau athletau mewn cyd weithrediad ag athletau Cymru i Lianne Clarke, Brett Morse, Dewi Rhys Griffiths a David Guest.
- Ysgoloriaeth golff i ddau golffwr ifanc sydd yn dangos potensial sef Gemma Bradbury a Rhys Owen Pugh.
- Roedd ysgoloriaeth T Glynne Davies am 2009/10 wedi ei wobrwyo i Eiliw Hughes.
- Cynigwyd ysgoloriaeth Perfformio Syr Geraint Evans i Ting Wang a Viktoras Gerasimov.

Gwobrau

Cafodd nifer o'n rhaglenni eu henwebu a'u gwobrwyo yn 2010. Dyma restr o rai a fu'n llwyddiannau:

- Bafta Cymru – Carwyn (Greenbay) - (Rhaglen Ddogfen/Drama Dogfen).
- Bafta Cymru – Dudley Pryd o Sêr (Rondo Media) - (Adloniant Ysgafn Gorau).
- Bafta Cymru – Ryan a Ronnie (Boomerang) - (Cyfarwyddwr Ffotograffiaeth Gorau – Drama).
- Bafta Cymru – Ar y Tracs (Tidy Productions/Greenbay) - (Sain Gorau).
- Bafta Cymru – Cyngerdd Dathlu Karl Jenkins (Rondo Media) - (Cyfarwyddwr Goleuo Gorau – Dim Camera).
- Bafta Cymru – Y Daith (Roughcollie) - (Teitlau Gorau).
- Bafta Cymru – Ar y Tracs (Tidy Productions/Greenbay) - (Y Gwisgoedd Gorau).
- Bafta Cymru – Ryan a Ronnie (Boomerang) - (Awdur Gorau ar gyfer y Sgrin).
- Bafta Cymru – Cwew (Ffilmiau Fondue) - (Trac Sain Gerddorol Orau).
- Bafta Cymru – Ryan a Ronnie (Boomerang) - (Cyfarwyddwr Gorau: Drama).
- Bafta Cymru – Carwyn (Greenbay) - (Cyfarwyddwr Gorau).
- Bafta Cymru – Aled Pugh – Ryan a Ronnie (Boomerang) - (Actor Gorau).
- Bafta Cymru - Eiry Thomas – Cwew (Ffilmiau Fondue) - (Actores Gorau).
- Gŵyl Cyfryngau Celtaidd – Y Saith Magnifico (Boomerang) - (Adloniant Ffeithiol).
- Gŵyl Cyfryngau Celtaidd – Carwyn (Greenbay) - (Chwaraeon).
- Gŵyl Cyfryngau Celtaidd – Martha Jac a Sianco (Apollo) - (Ysbryd yr Ŵyl).
- Gŵyl Cyfryngau Celtaidd – Trip yr Ysgol Gymraeg (ITV Cymru) - (Addysg).
- Gŵyl Ffilm Plant yn Chicago – Igam Ogam (Calon) - (cael ei ddewis ar gyfer dangosiad yn yr Ŵyl).
- Gwobrau CIPR – Ymlaen a'r Sioe (Working Word PR, Cazbah Marketing and Events a JM Creative) - (Gwobr Rhagoriaeth y CIPR).
- Promax D.U. – Haca Dyfarnwyr (Umpires Haka) (S4C) - (Promo Chwaraeon Gorau).
- Sportel – Haca Dyfarnwyr (Umpires Haka) (S4C) - (Trail Gorau - Gwobr Georges Bertellotti Golden Podium).